# Adroddiad Cynnydd ar Adnewyddu
# Plas Penaeldroch - Mai 2025

Bu inni brynu Neuadd y Plas (Plas Penaeldroch erbyn hyn) ym mis Rhagfyr 2015 gyda'r bwriad o'i adnewyddu yn llwyr ymhen 10-15 mlynedd. Rydym bellach 9 mlynedd i mewn i'r prosiect gyda llawer i'w wneud o hyd!

Mae tair 'ardal' ym Mhlas Penaeldroch ar hyn o bryd. Y tŵr o'r 1970au, sydd wedi'i adfer yn llwyr ac yn gartref i dair ystafell wely gwesty, sydd ar agor i westeion. Y maenordy Fictoraidd, gaiff ei adnewyddu ymhen ychydig flynyddoedd, a'r prosiect presennol.

Pan ddaethom i feddiant Plas, roedd estyniad to fflat un llawr gyda phedair ystafell wely ddwbl (i'r dde wrth ichi edrych o'r maes parcio) ynghlwm trwy gyfres o adeiladau ar oleddf ac yn edrych ychydig fel byngalo oedd wedi gweld dyddiau gwell. Rydym yn trawsnewid hwn, gan roi to ar ongl iddo i'w wneud yn gliriach yn weledol bod y ddau adeilad yn perthyn i'w gilydd, gyda llety hawdd ei gyrraedd ar y llawr gwaelod (sy'n addas i bobl mewn cadair olwyn, a rheiny gyda phroblemau golwg neu glyw) gydag ystafelloedd gwely eraill ar y llawr cyntaf. Rydym hefyd yn creu ardal dderbynfa - ond mae hyn i gyd yn cymryd llawer mwy o amser na'r hyn yr oeddem wedi'i ddisgwyl yn gyntaf. Rydym yn gobeithio gosod llechi ar y to o fewn y mis nesaf.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn y manylion pellach, mae croeso ichi alw heibio, a bydd Mike a Carrie yn hapus i rannu'r wybodaeth gyda chi!

Rydym yn gobeithio y bydd y ddwy ystafell wely hawdd eu cyrraedd yma yn barod ar gyfer gwesteion yn 2027 ac, unwaith y bydd y gwaith adeiladu yma wedi'i gwblhau a bod cwrt blaen yr adeilad wedi'i glirio o'r gwaith adeiladu, rydym yn gobeithio gallu ail-agor y caffi a dal i fyny gyda'r holl 'newyddion' lleol rydym wedi'u colli yn y cyfamser!

Yma, bydd dim ond angen aros inni orffen y storfa y mae modd ei chloi, amnewid yr hen hafoty, fel bod pobl yn gallu gadael eu beiciau yn rhywle diogel, ac yna atgyweirio'r to sy'n gollwng yn y Plas, cyn mynd ati i adnewyddu'r llawr cyntaf, er mwyn gwneud sawl ystafell i'w gosod ac ystafell i'r perchennog yn yr atig. Byddwn ni yna'n diweddaru'r ystafelloedd derbyn yn y Plas fel bod ein gwesteion yn gallu mwynhau pob rhan o'r Plas, gan gynnwys yr ystafell gemau (sydd i ddod yn fuan).

Rydw i a Mike wedi ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith hyd yma, gyda chymorth o bryd i'w gilydd gan ein cyfaill lleol, Niall.

Dilynwch ein cynnydd ar ein blog ar www.penaeldroch.co.uk/blog/